CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 13 Mawrth 2017 am 8.00yh.
Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Fe'u croesawyd gan y Cadeirydd a chafwyd trafodaeth am ddatblygiad arfaethedig yn y pentref.

Estynwyd cydymdeimlad i Tom Jones ar farwolaeth ei chwaer ac i Emyr Evans ar farwolaeth ei gefnder.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod blaenorol.

COMISYNYDD YR HEDDLU:
Roedd y Clerc wedi cysylltu â Dafydd Llywelyn ers y cyfarfod diwethaf drwy ebost ond heb dderbyn ymateb. Roedd Linda Evans wedi danfon llythyr ynglŷn â'r parcio gwrthgymdeithasol ar y palmant ger Garej Celtic Classics i Adran Briffyrdd Cyngor Sir Gâr.

CWMNI RES
Cadarnhawyd gan Linda Evans na fyddai datblygiadau pellach cyn mis Ebrill eleni.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr o gadarnhad bod popeth parthed pryniant y cae wedi ei drosglwyddo i'r cyfreithwyr.
Roedd yr arwydd "Araf, Plant yn Chwarae/Slow, Children Playing" wedi ei osod yn ei le.

MANTOLEN
Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

CWARE MOWNT.
Roedd angen gwagio'r sbwriel oedd yn y bin. Roedd Linda Evans yn mynd i gysylltu â Chyngor Sir Gâr.

Penderfynwyd cefnogi: Gwersyll yr Urdd Llangrannog; CFFI Sir Gâr.

ETHOLIAD 2017

Dymunwyd yn dda i'r cynghorwyr a oedd yn ymddeol. Diolchwyd iddynt oll am eu gwasanaeth cydwybodol gan y Cadeirydd.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 8 Mai 2017 am 8.00yh, pryd y cynhelir y Cyfarfod Blynyddol.